# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 21 Mai 2015** |
| Amser: | **09.05 – 12.38** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/3018**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru**<br>**Hywel Dafydd, Comisiynydd Plant Cymru**<br>**Samantha Clutton, Barnardo's Cymru**<br>**Cecile Gwilym, NSPCC Cymru**<br>**Catriona Williams, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru**<br>**Kate Chamberlain, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**<br>**Nia Roberts, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**<br>**Lin Slater, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**<br>**Lynda Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Glerc)** |

Catherine Hunt (Ail Glerc)
Sian Giddins (Dirprwy Glerc)
Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)
Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)
Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)
Stephen Boyce (Ymchwilydd)
Amy Clifton (Ymchwilydd)

---

**Trawsgrifiad**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): trafodaeth am drefn ystyried trafodion Cyfnod 2

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn ystyried trafodion Cyfnod 2 y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) mewn egwyddor.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle.

## 3 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 13

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

3.2 Cytunodd y Comisiynydd Plant i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- canfyddiadau adolygiad y Comisiynydd o'r broses o gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth;
- ei barn ar adran 57 o'r Bil ar swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya.

## 4 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 14

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

4.2 Cytunodd Catriona Williams a Cecile Gwilym i roi eu barn i'r Pwyllgor ynghylch a yw'r Bil yn rhoi diffiniad digon clir o weithiwr gofal cymdeithasol.

4.3 Cytunodd Samantha Clutton a Cecile Gwilym i roi eu barn i'r Pwyllgor ar sut y gellid atgyfnerthu'r Bil o ran comisiynu gwasanethau gan awdurdodau lleol.

## 5 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 15

5.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

## 6 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 16

6.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau'r Aelodau.

## 7 Papurau i'w nodi

7.1 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru): gohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
7.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.
9.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at sefydliadau gofalwyr maeth i ofyn eu barn ar ymestyn y gofyniad i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ofalwyr maeth.

## 10 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): paratoi ar gyfer gwaith craffu

10.1 Nododd y Pwyllgor benderfyniad y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol graffu arno yng Nghyfnod 1 a Chyfnod 2 a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ddweud bod ganddo bryderon sylweddol ynghylch yr amserlen arfaethedig a'r pwysau y byddai hynny'n eu rhoi ar ei lwyth gwaith.
10.2 Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Pwyllgor Busnes ymestyn y terfyn amser ar gyfer craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1 o ddwy wythnos er mwyn caniatau ar gyfer ymrwymiadau gwaith eraill.